



Polisi Ymddygiad a Disgyblaeth

I - Amcanion

Rydym eisiau i Ysgol Llannon i fod yn ysgol hapus a diogel, lle bod cyfle i weithio a chwarae gyda'i gilydd. Rydym yn disgwyl i bawb fod yn garedig, yn glên ac yn onest bob amser gan ddangos hunan-barch a pharch at bawb a phopeth arall.

Cewch wybodaeth yn y llyfryn hwn am yr hyn a wneir i annog ein plant i ymddwyn yn well ac i roi o'u gorau, gan bwysleisio'r bartneriaeth angenrheidiol rhwng yr ysgol, y cartref a'r plentyn. Mae'n dangos hefyd pa gamau a gymerir os yw ein plant yn camymddwyn.

Yn Ysgol Llannon rydym yn ymfalchïo ein bod ni'n medru darparu profiadau dysgu cynhwysol, heriol a chyffrous i'r holl blant mewn cymuned hapus a gofalgarg.

Anelwn at ddarparu'r cyfleoedd gorau i'r plant, ac mae cydweithio fel partneriaid yn hanfodol i brofi llwyddiant yn hynny. Diolch i chi am ein cynorthwyo i gynnal y safonau uchaf drwy'r ysgol. Os oes gennych unrhyw broblemau neu gwestiynau, cofiwch gysylltu gyda'r ysgol.

2 - Gwerthoedd yr ysgol

Mae gwerthoedd yr ysgol yn cynnwys:

- dweud y gwir
- cadw addewidion
- parchu eraill
- ymddwyn yn ystyriol at eraill
- helpu rhai llai ffodus na ni'n hunain
- cymryd cyfrifoldeb dros ein gweithredoedd
- hunan ddisgyblaeth

Fel ysgol, gwrthwynebwn:

- bwlio
- twyllo
- dichell (deceit)
- creulondeb
- ymddygiad anghyfrifol
- anonestrwydd



Gweithio gyda'n gilydd

Llwyddiant ymddygiad da yw bod pawb yn cydweithio er lles y plentyn.

Golyga hyn:

- bod yn onest, agored a theg gyda'n gilydd
- gwrandao ar ein gilydd
- gweithio gyda'n gilydd i ddatrys problemau

Trwy gydweithio, gobeithiwn y bydd eich plentyn yn cael cyfnod hapus a llwyddiannus yn Ysgol Llannon.

3 - Gwobrwyo Plant

Rhagarweiniad

Yn Ysgol Llannon rydym yn anelu i wneud yr ysgol yn gymdeithas gyfeillgar ble y gall pob plentyn brofi llwyddiant a bod eu hymdrechion yn cael eu cydnabod a'u parchu. Mae gwobrwyo plant' am eu llwyddiannau'n cyfrannu at deimlad o hunain barch o fewn y plentyn sydd yn ei dro yn cyfrannu at ddatblygiad emosiynol, cymdeithasol ac addysgol.

Amcanion:

- cynorthwyo'r plentyn i werthfawrogi ymdrech dda
- dangos bod ymdrech dda yn cael ei pharchu gan yr athrawon a phawb sy'n gysylltiedig â hwy o ddydd i ddydd
- trwy gydnabod ymdrech, gobeithiwn ddarparu awyrgylch o hapusrwydd a bodlonrwydd ar gyfer y dysgu a'r addysgu
- darparu amgylchedd ofalus a chyfeillgar ar gyfer y plant
- dangos bod cysondeb yn rhinwedd o bwys wrth barchu ymdrechion

Dull o weithredu

Er mwyn i'r plant deimlo'n falch ohonynt eu hunain a'u hysgol, byddwn yn gwobrwyo ymdrech sy'n well na'r disgwyl. Yn y dosbarth defnyddir canmoliaeth lafar a sticeri. Mae gan bob dosbarth ei system ei hun hefyd. Yn Nosbarth 1, bydd y plant yn ennill sêr yn unigol. Unwaith y byddant yn cyrraedd 10 seren, byddant yn gallu dewis gwobr fach o'r 'Twba Iwclus'. Yn Nosbarth 2, byddant yn gweithio fel grŵp i gael pasta ar gyfer eu bwrdd. Y bwrdd gyda'r mwyaf o basta ar ddiwedd yr wythnos yn derbyn 'Amser Aur' ychwanegol. Bydd y plentyn yn cael ei ganmol mor aml ag sy'n briodol.

Trwy'r ysgol defnyddir:

- gwasanaethau ysgol gyfan le bydd y staff yn canmol plant am ymdrech dda ee mewn gwaith dosbarth, parodrwydd i helpu eraill ac ymddygiad gwell na'r disgwyl.
- tystysgrif llwyddiant.
- canmoliaeth ac anogaeth bersonol gan y staff am ymdrech dda, gan gynnwys cyfle i ddangos gwaith i weddill yr ysgol.

4 - Cyfrifoldeb y disgyblion

Disgwylir i'r disgyblion ddilyn y côd moesol yn eu dosbarthiadau ac yn yr ysgol yn gyffredinol

Côd Moesol yr Ysgol:

Disgwylir i bawb yn Ysgol Llannon i ymddwyn yn dda.

Byddwch yn gwrtais

- gan alw pawb yn ôl ei enw
- gwrandewch a dilynwch gyfarwyddiadau
- ymgysylltu'n briodol ag aelodau o staff pan fyddant yn siarad
- arhoswch eich tro i siarad, peidiwch â siarad ar draws

Byddwch yn garedig

- peidiwch â thafu eich pwysau o gwmpas
- cadwch eich traed, dwylo ac eiddo personol i chi eich hunan
- peidiwch â bwlio a difetha gêmâu plant eraill

Byddwch yn ofalus

- edrychwch ar ôl eich eiddo eich hun, eiddo eraill, ac eiddo'r ysgol
- edrychwch ar ôl yr ysgol gan ei chadw yn lan ac yn daclus

Byddwch yn gall

- cerddwch yn dawel a chall o gwmpas yr adeilad
- cadwch yn glir o unrhyw drwbl a dywedwch wrth oedolyn am unrhyw beth sy'n eich poeni

Byddwch o ddifrif

- byddwch yn brydlon bob amser
- gwnewch eich gorau bob amser

5 - Cyfrifoldebau y rhieni

Mae gan y rhieni rôl allweddol i sicrhau fod eu plentyn yn hapus a llwyddiannus yn yr ysgol.

Mae hyn yn cynnwys:

- cefnogi cod ymddygiad yr ysgol a'r polisi disgyblaeth
- rhannu pryderon am addysg, ymddygiad a lles eich plentyn gyda'r Pennaeth/athrawon
- dangos diddordeb byw yn natblygiad a gwaith eich plentyn
- bod yn barod i gynorthwyo eich plentyn
- mynychu cyfarfodydd rhieni a gweithgareddau yn ymwneud â'r ysgol

- rhoi gwybodaeth i'r ysgol os bydd eich plentyn yn absennol oherwydd gwaeledd, apwyntiad, gwyliau neu unrhyw reswm arall
- sicrhau fod eich plentyn yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon
- os oes rhaid i'r ysgol ddefnyddio sancsiynau rhesymol i gosbi plentyn, dylai rhieni gefnogi gweithredoedd yr ysgol

6 - Atal camymddwyn

Ar adegau gall rhai o'n plant anghofio sut i ymddwyn yn ôl y côd moesol ac ymddwyn mewn modd annerbyniol. Yn Ysgol Llannon ceisiwn fod yn bositif, os yw plentyn yn gwneud cangymeriad mae yna hefyd gyfle i ddysgu.

Ceisiwn osgoi camymddwyn drwy:

- wobrwyo a chanmol ymddygiad da bob amser
- atgoffa'r disgyblion o reolau'r ysgol yn gyson

Os fydd camymddwyn yn digwydd yna mi fydd yn rhaid dilyn camau arbennig. Rhaid i'r holl blant ddeall os yw'n camymddwyn yn fwriadol eu bod yn gorfod wynebu'r canlyniadau

Canlyniad camymddwyn yw:

- rhybudd llafar, tawel (Melyn)
- colli rhan o amser chwarae (Coch)
- gweithio mewn dosbarth arall
- cyfeirio'r mater at y Pennaeth

Mewn achosion difrifol neu gamymddwyn rheolaidd bydd y plentyn yn cael ei anfon at y Pennaeth.

Gall hyn arwain at:

- roi gwybod i rieni drwy lythyr neu alwad ffôn
- defnyddio'r llyfr log ymddygiad

Camymddwyn Difrifol

Mewn achos o gamymddwyn difrifol megis trais, bwlio, haerllugrwydd, bygwth staff neu gan gynnwys staff ategol, gall yr holl gamau a nodwyd uchod gael eu hepgor ac anfonir y plentyn yn syth at y Pennaeth.

Gall y Pennaeth wedyn gymeryd y camau canlynol:

- rhybudd llafar
- cysylltu'n syth gyda'r rhieni i drafod y sefyllfa
- defnyddio'r llyfr adroddiad

Os ydych fel rhiant yn derbyn hysbysiad o'r fath, golyga hyn bod eich plentyn wedi camymddwyn yn gyson er y rhybuddion. Mewn achos o gamymddwyn difrifol daw'r gwaharddiad dros dro i rym yn syth.

7 - Ymddygiad ar yr Iard

Ar yr Iard, rydym yn defnyddio'r rheolau canlynol:

- cadw o fewn ffiniau'r Iard bob amser
- bod yn gyfeillgar a chwarae'n ddiogel
- mynd i'r llinellau yn syth wedi i'r athrawon eich galw
- aros yn llongydd ac yn dawel mewn llinellau

Goruchwyliaeth Iard Amser Chwarae a Chinio

Yn ystod y cyfnodau hyn bydd y plant yn cael eu goruchwyllo gan athrawon ac oedolion eraill sy'n gweithio yn yr ysgol.

Disgwylir i'r disgyblion ymddwyn yn briodol gyda holl staff yr ysgol.

Gwobrwo Amser Cinio:

- canmoliaeth gan yr oedolion sydd ar ddyletswydd
- canmoliaeth gan yr athrawon yn y dosbarth

Sanctsiynau Amser Chwarae/Cinio:

- rhybudd/cerydd llafar
- cerdded gyda'r oedolion neu sefyll wrth y wal am gyfnod
- danfon at y Pennaeth
- mewn achos o gamymddwyn difrifol yn ystod amser cinio mae'r hawl gan yr ysgol i anfon y plentyn adref

8 - Dim Bwlio

Beth yw bwlio?

- Gall bwlio fod yn **gorfforol** pan fo plentyn yn cael ei daro'n fwriadol.
- Gall bwlio fod yn **eiriol** pan fo plant yn galw enwau, yn bychanu a gwawdio plant eraill.

Yn gyffredinol diffiniad o fwlio yw "gweithred sy'n digwydd mwy nag unwaith."

Cofiwch: *bygwth a chodi ofn mae'r bwli yn ceisio ei wneud.*

Safbwynt yr Ysgol

Os digwydd bwlio, yna bydd yr ysgol yn ymateb fel hyn:

- delio â'r broblem yn gyflym, yn deg ac yn gadarn,
- siarad gyda'r plant o'r ddau safbwynt - darparu cwnsela yn ôl yr angen,
- cosbi yn yr ysgol pan fo angen,
- cysylltu â'r rhieni
- os bydd y mater yn un difrifol, yna byddwn yn ystyried gwaharddiad

Safbwynt y Rhieni

Os ydych yn poeni fod eich plentyn yn dioddef bwlio, yna cysylltwch â'r ysgol **yn syth**. Os oes digwyddiad y tu allan i oriau ysgol, mae'n fater i'r heddlu.

Sut y gallwch helpu?

- siaradwch â'ch plentyn
- peidiwch â chytuno i gadw'r peth yn gyfrinach
- os mai eich plentyn chi yw'r bwli efallai y bydd angen cyngor a chymorth arnoch chi

Neges i blant:

- RHANNWCH y broblem ewch i ddweud yn syth wrth athro neu athrawes, rhieni neu ffrind.
- NODWCH y broblem os teimlwch na allwch sôn am eich profiad.
- COFIWCH bydd yr ysgol yn ymchwilio i honiadau o fwlio ond gwnânt hynny mewn ffordd sensitif. Ein nod yw cael gwared ar fwlio.
- DILÛWCH fwlio trwy ddweud am bob digwyddiad rydych yn dyst iddo.
- CEFNOGWCH y rhai sy'n cael eu bwlio
- GWERTHFAWROGWCH yr amrywiaeth o blant sydd ar gael yn yr ysgol
- PEIDIWCH â gadael i wahaniaethau arwain at ymddygiad anystyriol ac annerbyniol

COFIER

**Mae'n weithred ddewr hysbysu ynghylch bwlio
NID yw bwlio yn rhan o'r profiad o dyfu i fyny**

Rôl llywodraethwyr

Os oes gan rieni unrhyw bryder am y ffordd y mae eu plentyn wedi cael ei drin, dylent gysylltu â'r athro dosbarth i ddechrau. Os yw'r pryder yn parhau, dylent gysylltu â'r Pennaeth ac yn methu â gwneud hynny, cysylltu â llywodraethwyr yr ysgol. Os ni all y trafodaethau hyn ddatrys y broblem, gellir gweithredu proses gwyno neu apelio ffurfiol.

Mae'r corff llywodraethu yn gyfrifol am osod y canllawiau cyffredinol hyn ar safonau disgyblaeth ac ymddygiad, ac o adolygu eu heffeithiolrwydd. Mae'r llywodraethwyr yn cefnogi'r pennaeth wrth weithredu'r canllawiau hyn.

Y pennaeth sydd â'r awdurdod o ddydd i ddydd i weithredu polisi ymddygiad a disgyblaeth yr ysgol, ond llywodraethwyr gall roi cyngor i'r pennaeth ar faterion disgyblu penodol. Rhaid i'r pennaeth gymryd hwn i ystyriaeth wrth wneud penderfyniadau am faterion ymddygiad.

Adolygu

Mae'r corff llywodraethu yn adolygu'r polisi hwn os yw'r llywodraeth yn cyflwyno rheoliadau newydd, neu os yw'r corff llywodraethu yn derbyn argymhellion ar sut y gellid gwella'r polisi.

Anogir rhieni i roi eu barn ar y polisi hwn yn ystod y broses adolygu.

Llofnodwyd:

Cadeirydd y Llywodraethwyr: G. Evans



Prifathro: N. Davies



Dyddiad: 12|04|2024